# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(96)v4

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 12 ac 14. Cafodd cwestiynau 7 ac 11 eu grwpio. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**CWESTIWN BRYS**
Dechreuodd yr eitem am 14.26

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.37

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol

Dechreuodd yr eitem am 14.56

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Paratoadau ar gyfer y Gaeaf

Dechreuodd yr eitem am 15.35

### 5. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio – pwerau i gynnwys darpariaethau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth

Dechreuodd yr eitem am 16.09

**NNDM5061 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â phŵer i Weinidogion Cymru gynnwys cymalau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2011-12

Dechreuodd yr eitem am 16.12

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Gomisiynydd Plant Cymru gyfrifoldeb dros faterion wedi eu datganoli a materion heb eu datganoli sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu trefniadau llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru, ac i ystyried gwneud y Comisiynydd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach nag i'r Prif Weinidog yn unig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 26 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod datganiad i'r wasg Comisiynydd Plant Cymru sy'n gysylltiedig ag Adroddiad Blynyddol 2011-12:

a) yn cydnabod y pryderon a fynegwyd wrth Gomisiynydd Plant Cymru nad yw rhai pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau ieuenctid o ansawdd da, ac nad yw gwasanaethau ieuenctid yn cael eu gwerthfawrogi ddigon; a

b) yn galw am ymrwymiad cenedlaethol i gydnabod gwerth gwaith ieuenctid.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5095 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2011-12.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Gomisiynydd Plant Cymru gyfrifoldeb dros faterion wedi eu datganoli a materion heb eu datganoli sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru.

Yn nodi bod datganiad i'r wasg Comisiynydd Plant Cymru sy'n gysylltiedig ag Adroddiad Blynyddol 2011-12:

a) yn cydnabod y pryderon a fynegwyd wrth Gomisiynydd Plant Cymru nad yw rhai pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau ieuenctid o ansawdd da, ac nad yw gwasanaethau ieuenctid yn cael eu gwerthfawrogi ddigon; a

b) yn galw am ymrwymiad cenedlaethol i gydnabod gwerth gwaith ieuenctid.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **50** | **0** | **1** | **51** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**CYFNOD PLEIDLEISIO**
Dechreuodd yr eitem am 17.11
**Crynodeb o Bleidleisiau**
**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.13

**NDM5075 Lynne Neagle (Tor-faen):** Y Storm Berffaith

Asesu effaith gronnol diwygio lles mewn cysylltiad â thai yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:40

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2012**